Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**

| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Meilyr Rowlands |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 029 2044 6446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | 05.05.21 |
| **Pwnc / Subject:** | **Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Gorchmynion Atal Dros Dro) (Swyddogaethau Ychwanegol) (Cymru) 2021** |

**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Prif nod Estyn yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Estyn ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae cylch gwaith Estyn yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gall Estyn roi cyngor i'r Cynulliad ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, mae Estyn wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Ymateb**

| **Cyflwyniad** |
|---|
| Mae Estyn yn cefnogi egwyddorion cyffredinol gweithdrefnau a rheolau disgyblu'r Gorchymyn Atal Dros Dro diwygiedig, a fydd yn cael eu hychwanegu fel Adran 5 at y gweithdrefnau a'r rheolau disgyblu presennol.<br><br>Rydym yn cytuno bod Adran 5 arfaethedig y gweithdrefnau a'r rheolau disgyblu diwygiedig yn adlewyrchu'r pwerau y darperir ar eu cyfer yng Ngorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg 2021. Hefyd, rydym yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg pan fydd y Cyngor yn cynnal gwrandawiadau ac adolygiadau cychwynnol.<br><br>Rydym wedi amlinellu ychydig o bwyntiau pellach i'r Cyngor eu hystyried, sy'n gysylltiedig ag Adran 5. Mae'r rhain yn cynnwys:<br><br>• **39 (3)** Os yw'r unigolyn cofrestredig yn dewis cael hysbysiad am wrandawiad trwy'r e-bost, dylai'r swyddog awdurdodedig sydd ar ddyletswydd ofyn am dderbynneb darllen fel prawf fod yr hysbysiad am y gwrandawiad wedi cael ei dderbyn gan yr unigolyn cofrestredig. Mae hyn yn cyd-fynd â'r dull arall, sef defnyddio dosbarthiad arbennig trwy gyfeiriad yr unigolyn cofrestredig.<br>• **39(4) (d)** Nid oes unrhyw sôn y dylid gofyn i'r unigolyn cofrestredig gadarnhau p'un a yw'n dymuno bod y gwrandawiad yn cael ei gynnal trwy gyfrwng y Saesneg neu'r Gymraeg.<br>• **40 (1)** Mae'r ddogfen yn amlinellu'n glir hawl y pwyllgor i eithrio'r cyhoedd o'r gwrandawiad, neu unrhyw ran o wrandawiad. Dylid gwneud hyn yn glir pan fydd yr unigolyn cofrestredig yn gofyn ar y cychwyn i'r gwrandawiad gael ei gynnal yn gyhoeddus yn hytrach nag yn breifat [4(d) (ii)]<br>• **42 (3) (b)** Os bydd y pwyllgor yn fodlon y cydymffurfiwyd â rheol 39, ac yn absenoldeb yr unigolyn cofrestredig, nid yw'n glir pam y gallai'r pwyllgor ddewis gohirio'r gwrandawiad.<br>• **44(3)** Nid yw'n glir pwy sy'n gwneud y penderfyniad p'un a yw cyhoeddi gwybodaeth y Gorchymyn Atal Dros Dro ar wefan a gynhelir Cyngor y Gweithlu Addysg yn ymddangos yn angenrheidiol ai peidio.<br>• **45 (6)** A all aelodau pwyllgor y gwrandawiad adolygu fod yr un bobl â'r pwyllgor gwreiddiol a gynhaliodd y gwrandawiad cychwynnol? |

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

## Cwestiynau

1. **Ydych chi'n cytuno bod adran 5 y Gweithdrefnau a'r Rheolau Disgyblu diwygiedig, fel y maent wedi eu drafftio yn adlewyrchu'n gywir y pwerau y darperir ar eu cyfer yng *Ngorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Gorchmynion Atal Dros Dro) (Swyddogaethau Ychwanegol) (Cymru) 2021*?**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cytuno** | ☒ | **Anghytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ☐ |

**Sylwadau ategol**
Rydym yn cytuno bod adran 5 y gweithdrefnau a'r rheolau disgyblu diwygiedig yn adlewyrchu'n gywir y pwerau y darperir ar eu cyfer yn nogfen CGA.
Mae'r gweithdrefnau a'r rheolau disgyblu arfaethedig yn amlinellu'n glir ac yn gywir sut y dylid trefnu unrhyw wrandawiad, neu wrandawiad adolygu, a sut y dylid cysylltu â'r unigolyn, a'r wybodaeth a rennir ag ef / â hi.

2. **Mae *Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Gorchmynion Atal Dros Dro) (Swyddogaethau Ychwanegol) (Cymru) 2021* yn gwneud amod i CGA ystyried p'un a ddylid gosod Gorchymyn Atal Dros Dro ar gofrestriad unigolyn cofrestredig CGA. Ydych chi'n cytuno â Gweithdrefnau a Rheolau'r Gorchymyn Atal Dros Dro, fel y'u hamlinellir yn Adran 5 Gweithdrefnau a Rheolau Disgyblu drafft 2021?**

| Cytuno | ☒ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**
Rydym yn cytuno â gweithdrefnau a rheolau'r Gorchymyn Atal Dros Dro, fel y'u hamlinellir yn Adran 5 arfaethedig gweithdrefnau a rheolau disgyblu drafft 2021.

Fodd bynnag, rydym wedi amlinellu ychydig o bwyntiau i'r Cyngor eu hystyried:

**39 (2) (a)** Mae'r ddogfen yn amlinellu y gellir rhoi ystyriaeth i amddiffyn y cyhoedd mewn achosion hynod ddifrifol. A ellid gwneud hyn yn gliriach i esbonio ei fod ar gyfer amddiffyn plant yn benodol?
**39 (3**) Os yw'r unigolyn cofrestredig yn dewis cael hysbysiad am wrandawiad trwy'r e-bost, dylai'r swyddog awdurdodedig sydd ar ddyletswydd ofyn am 'dderbynneb darllen' fel prawf fod yr hysbysiad am y gwrandawiad wedi cael ei dderbyn gan yr unigolyn cofrestredig. Mae hyn yn cyd-fynd â'r dull arall, sef defnyddio dosbarthiad arbennig trwy gyfeiriad yr unigolyn cofrestredig.
**39(4) (d)** Nid oes unrhyw sôn y dylid gofyn i'r unigolyn cofrestredig gadarnhau p'un a yw'n dymuno bod y gwrandawiad yn cael ei gynnal trwy gyfrwng y Saesneg neu'r Gymraeg.
**39 (5)** Mae'r ddogfen ddrafft yn datgan y dylai'r unigolyn cofrestredig ddarparu unrhyw gyflwyniad neu ddogfennau ysgrifenedig perthnasol i Gyngor y Gweithlu Addysg (CGA) cyn y gwrandawiad. Fodd bynnag, nid yw'n datgan pa mor bell cyn y gwrandawiad y dylid derbyn y dogfennau hyn i alluogi'r pwyllgor i'w hystyried cyn unrhyw gyfarfod.
**40 (1)** Mae'r ddogfen yn amlinellu'n glir hawl y pwyllgor i eithrio'r cyhoedd o'r gwrandawiad neu unrhyw ran o wrandawiad. Dylid gwneud yr hawl hon yn glir pan fydd yr unigolyn cofrestredig yn gofyn ar y cychwyn i'r gwrandawiad gael ei gynnal yn gyhoeddus yn hytrach nag yn breifat [4(d) (ii)]
**42 (3) (b)** Os bydd y pwyllgor yn fodlon y cydymffurfiwyd â rheol 39, ac yn absenoldeb yr unigolyn cofrestredig, nid yw'n glir pam y gallai'r pwyllgor ddewis gohirio'r gwrandawiad.
**43 (1) (b)** Nid yw hyn yn ystyried pan fydd yr unigolyn cofrestredig yn hunangyflogedig, ac nid oes ganddo gyflogwr neu asiant blaenorol, cyfredol.

**44(1)** Nid yw'n glir p'un a yw'r cyfeiriad at gyhoeddi gwybodaeth ar wefan yn ymwneud â gwefan sy'n wynebu tuag i mewn neu tuag allan.
**44(3)** Nid yw'n glir pwy sy'n gwneud y penderfyniad ynghylch p'un a yw cyhoeddi gwybodaeth y Gorchymyn Atal Dros Dro ar wefan a gynhelir Cyngor y Gweithlu Addysg yn ymddangos yn angenrheidiol ai peidio.
**45 (1)** A oes terfyn ar nifer yr adegau y gall unigolyn cofrestredig blaenorol y gwnaed Gorchymyn Atal Dros Dro yn ei erbyn ofyn i CGA ei adolygu? Os felly, dylid nodi hyn yn yr adran hon.
**45 (6)** A all aelodau pwyllgor y gwrandawiad adolygu fod yr un bobl â'r pwyllgor gwreiddiol a gynhaliodd y gwrandawiad cychwynnol?
**47(1)** Os caiff y Gorchymyn Atal Dros Dro ei ddiddymu yn dilyn adolygiad, a ddylai'r swyddog awdurdodedig hysbysu cyflogwr blaenorol yr unigolyn cofrestredig blaenorol am y penderfyniad, yn ogystal â'r unigolyn cofrestredig blaenorol ei hun?

3. **Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai Gweithdrefnau a Rheolau drafft y Gorchymyn Atal Dros Dro yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar y canlynol:**
   I. **cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg; a**
   II. **pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg**

**Sylwadau ategol**

O fewn y gorchmynion atal dros dro drafft cychwynnol, mae'n datgan yn glir fod yr unigolyn cofrestredig yn cael cyfle i benderfynu p'un a fydd y gwrandawiad yn cael ei gynnal trwy gyfrwng y Saesneg neu'r Gymraeg. Fodd bynnag, yn 39(4) (d), nid oes unrhyw sôn y dylid gofyn i'r unigolyn cofrestredig gadarnhau'r iaith y mae'r unigolyn cofrestredig yn dymuno'i defnyddio i gynnal y gwrandawiad.

Er mwyn gallu bodloni pob cais iaith, byddai angen i CGA sicrhau bod ganddynt ddigon o aelodau panel ar gael ar gyfer gwrandawiad cychwynnol ac unrhyw adolygiad, i'w galluogi i gynnal pob cyfarfod trwy gyfrwng y Gymraeg.

Cyhyd â bod yr holl geisiadau gan yr unigolyn cofrestredig i gynnal cyfarfodydd trwy gyfrwng y Gymraeg wedi cael eu bodloni, ni fyddai'r cynigion yn cael unrhyw effaith negyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac felly ni fyddai'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

4. **A oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill?**

Nac oes

☐ Ticiwch y blwch os ydych yn dymuno i'ch ymateb aros yn gyfrinachol
☐ √ Ticiwch y blwch os ydych yn hapus i ni gysylltu â chi ynglŷn â'ch cyflwyniad
**Diogelu data:** Sut bydd y farn a'r wybodaeth rydych chi'n eu rhoi i ni yn cael eu defnyddio

Bydd unrhyw ymateb a dderbynnir yn cael ei weld yn llawn gan staff CGA sy'n delio â'r ymgynghoriad hwn. Hefyd, gall aelodau staff eraill CGA ei weld i'w helpu i gynllunio ymgynghoriadau pellach.

Mae CGA yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o ymatebion a fydd yn cynnwys enw'r unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw neu'ch sefydliad gael ei gyhoeddi, gallwch eithrio o hyn pan fyddwch chi'n cyflwyno eich ymateb naill ai ar-lein neu drwy'r e-bost.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Byddwn yn cyhoeddi adroddiad ymgynghori ar wefan CGA.